FOOT IN THE DOOR | TROED YN Y DRWS



# ALISHA LLOYD

**Hyfforddai Gwallt a Cholur**

## Beth oedd eu taith trwy'r brosiect Troed yn y Drws?

- Gwnaeth Alisha gais am leoliad dan hyfforddiant a chafodd ei gwahodd I ddiwrnod recriwtio Netflix.
- Cymerodd ran yn yr hyfforddiant 'get set ready' gan Sgil Cymru.
- Cafodd ei dewis o blith yr ymgeiswyr ar y rhestr fer, ei chyfweld gan gydlynydd *Sex Education* a'i dewis gan y Dylunydd Gwallt a Cholur.
- Yn ystod yr ymweliad â'r set y diwrnod cyn ei lleoliad, cafodd Alisha sioc fawr. Nid oedd ganddi unrhyw syniad sut roedd y tryc colur wedi'i drefnu na sut roedd y diwydiant yn gweithio. Roedd gweld hyn ymlaen llaw yn ei helpu i deimlo'n barod.
- Aeth i'r afael â'r pythefnos o leoliad â thâl gan fwrw'n syth at y gwaith – bu'n cynorthwyo'r adran gwallt a cholur ar ddiwrnod prysur o dorf, gan ddefnyddio'r sgiliau coluro a ddysgodd yn y coleg.
- Tra'r oedd yno, dangoswyd iddi sut i wneud ambell blow dry a chafodd gyfle i'w hymarfer ar aelodau eraill y criw.
- Cafodd gyngor amhrisiadwy hefyd ynglŷn â pha fodiwlau i'w dilyn - er enghraifft, bydd yn gwneud modiwl gwaith barbwr yn y flwyddyn newydd.
- Roedd hi'n "caru pob munud" ac mae eisoes wedi derbyn gwahoddiad i ddychwelyd I wneud rhagor o waith â thâl fel staff iau dyddiol gwallt a cholur - gydag addewid o fwy o waith!

## Pam wnaethon nhw ymwneud â chi?

- Roedd ganddi ddiddordeb mewn gyrfa yn yr adran gwallt a cholur ym myd ffilm a theledu.

## Pa effaith mae'r prosiect wedi'i chael ar Alisha?

- Roedd Alisha yn eithaf swil yn y cyfarfod cyntaf, ond mae'r lleoliad wedi dod â hi allan o'i chragen. Roedd hi'n llawn brwdfrydedd ac mae'n teimlo'n gyffrous iawn am weithio yn y diwydiant.
- Dywedodd y dylunydd gwallt a cholur ei bod hi'n ei hargymell yn fawr ac mae eisoes wedi ei gwahodd yn ôl i wneud rhagor o waith â thâl, y tu allan i'r cynllun.
- Gyda'r cysylltiadau y mae hi wedi'u gwneud. Nawr bod ganddi ei 'throed yn y drws', gall gael ei thywys drwy gamau olaf ei haddysg I sicrhau bod ganddi'r sgiliau sydd eu hangen arni i gael swydd yn y diwydiant. A phan fydd hi wedi cymhwyso, mae eisoes ganddi'r cysylltiadau sydd eu hangen arni i gael y swyddi amser llawn cyntaf hynny.

## Beth wnaethon nhw ei ddysgu?

- "Llawer. Roedden nhw'n dangos triciau a phopeth i mi. Sut i wneud blow dry cyrliog. Fe wnes i ymarfer ar y Cyfarwyddwr Cynorthwyol. A chleisiau. Fe wnaethon nhw ddangos i mi sut mae continuity yn gweithio. Cymaint o bethau. Llawer mwy nag ydw i wedi ei ddysgu yn y coleg."

**"Dysgais gymaint drwy'r lleoliad ac roedd y pawb yn yr adran gwallt a cholur mor gymwynasgar ac wedi rhoi cymaint o sgiliau ac awgrymiadau newydd i ac mae hynny wedi fy helpu gymaint! Rwy mor hapus bod Troed yn y Drws wedi rhoi'r cyfle yma i mi gan ei fod wedi gwneud i mi sylweddoli mai dyma'r diwydiant rwy am weithio ynddo.
Diolch yn fawr iawn i bawb am eu help!"**